



# Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog

TACHWEDD 2017



## **Rheoli ac adolygu fersiynau**

Fersiwn 2 o bolisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog Cymwysterau Cymru yw hon. Cymeradwywyd fersiwn 1 ar 13 Mai 2016 gan Fwrdd Cymwysterau Cymru. Mae wedi'i hanelu at gyrff dyfarnu.

Mae'r polisi hwn yn esbonio ein dull cyffredinol tuag at argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a ddarperir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Nid yw'n nodi dull corfforaethol Cymwysterau Cymru o ymdrin â'r Gymraeg; caiff hyn ei gwmpasu mewn polisi a chynllun gweithredu ar wahân sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r datganiad polisi hwn yn gyson, ac os bydd o'r farn ei bod yn briodol, yn dilyn adolygiad, bydd yn paratoi datganiadau diwygiedig a diweddariadau. Bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu'r ddogfen hon unwaith y flwyddyn. Gallai adolygiad o'r fath ystyried effeithiolrwydd y polisi a'i gymhwysedd parhaus. Disgwylir i'r datganiad hwn gael ei adolygu nesaf erbyn mis Tachwedd 2017 fan bellaf.

Caiff adroddiad ei lunio yn erbyn y cynllun gweithredu cysylltiedig bob chwe mis a'i ddiweddarau.

Croesewir adborth ar y polisi hwn ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i [policy@qualificationswales.org](mailto:policy@qualificationswales.org).

## **Egwyddorion Cyffredinol y Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog**

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r holl gyrff dyfarnu sydd wedi cael eu cydnabod o dan Adran 4 (*Cydnabod gyrff dyfarnu*) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("Y Ddeddf").

Fel y nodir yn y Ddeddf, wrth arfer ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru weithredu mewn ffordd y mae'n ystyried sy'n briodol at ddiben cyflawni'r prif nodau, sef (a) sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol o ran diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a b) ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddibenion cyflawni ein prif nodau, byddwn yn ystyried (ymhlith pethau eraill):

**“dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac argaeledd cymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg”**

*Adran 3, Prif nodau'r Ddeddf*

### **Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog**

1. Nod y polisi hwn yw y dylai dysgwyr yng Nghymru gael mynediad at ystod o gymwysterau y gellir eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
2. Fel arfer<sup>1</sup> bydd Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gymwysterau **Cymeradwy**<sup>2</sup> fod ar gael i'w hasesu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
3. Mae Cymwysterau Cymru yn annog gyrff dyfarnu i sicrhau y gellir asesu yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer ystod mor eang â phosibl o gymwysterau **Dynodedig**<sup>3</sup>.
4. Efallai y gall Cymwysterau Cymru ddarparu cymorth i gyrff dyfarnu i'w helpu i ateb y galw am gymwysterau a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, darparu cymorth ariannol i gyrff dyfarnu er mwyn helpu i ateb y galw hwn.
5. Er mwyn gweld ym mha ffyrdd eraill y gall Cymwysterau Cymru hyrwyddo a hwyluso darpariaeth ddigonol o gymwysterau a threfniadau asesu Cymraeg a dwyieithog, mae nifer o gamau gweithredu ar waith ar y cyd â chyrrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill. Gellir dod o hyd i'r fersiwn bresennol a diweddiariad ar y fersiwn blaenorol yn Atodiad A. Bydd y camau gweithredu hyn yn llywio cynnwys y polisi hwn wrth iddynt fynd rhagddynt.

---

<sup>1</sup>Yr eithriad yw pan fydd yr asesiad yn profi sgiliau'r dysgwr mewn iaith benodol megis TGAU Cymraeg iaith neu TGAU Saesneg iaith.

<sup>2</sup> [//qualificationswales.org/regulation/approval-of-qualifications/?lang=cy](https://qualificationswales.org/regulation/approval-of-qualifications/?lang=cy)

<sup>3</sup> [//qualificationswales.org/regulation/approval-of-qualifications/?lang=cy](https://qualificationswales.org/regulation/approval-of-qualifications/?lang=cy)

<b>Blaenoriaethau ar gyfer Tachwedd 2016 – Mai 2017</b>	
a)	Nodi a sefydlu grŵp o gyrff dyfarnu y gallwn ymgynghori â nhw wrth i ni ddatblygu camau gweithredu penodol ymhellach mewn perthynas â chymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
b)	Trwy'r grŵp Cymraeg, ystyried hyfywedd creu system a all gyfateb cyrff dyfarnu â dilyswyr allanol / dilyswyr ansawdd allanol a all ddilysu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### **Y diweddaraf ar y cynnydd**

Ym mis Mai 2016 cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y camau gweithredu canlynol ynghyd â'r Polisi Rheoleiddiol Cymraeg a Dwyieithog.

<b>Mai 2016 - Tachwedd 2016</b>		<b>Y diweddaraf</b>
a)	Gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi pa ddata sydd ar gael o ran yr angen am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a'u hargaeledd, a deall unrhyw heriau wrth gasglu'r data hyn a pha mor gywir yw'r data.	Mae Cymwysterau Cymru wedi casglu data perthnasol o ffynonellau sydd ar gael gan gynnwys y cyfrifiad, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) a'r Arolwg o'r Gymraeg er mwyn rhoi darlun i ni o dueddiadau o ran defnyddio'r Gymraeg i lywio ein proses o ddatblygu polisiau. Cafwyd gennym fod data yn dod o amrywiaeth o ffynonellau ac nid ydynt bob amser yn cael eu cofnodi mewn ffordd ystyriol. Rydym wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn drwy ei hymarfer ymgynghori ar ei strategaeth ddrafft, "Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050".

		Rydym hefyd yn ystyried pa ddata fyddai'n ddefnyddiol i'w casglu'n uniongyrchol gan gyrff dyfarnu, gan ystyried y broses ymarferol o wneud hynny.
b)	Ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i adolygu a diweddarau'r wybodaeth ar QiW (cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru) o ran 'iaith asesu' (hynny yw, p'un a ellir asesu'r cymhwyster trwy gyfrwng y Gymraeg).	Daeth glanhau blaenoriaethol QiW i ben ar 30 Tachwedd 2016 a chynhaliwyd diweddariad terfynol QiW ar 1 Rhagfyr 2016. Mae cyrrff dyfarnu wedi adolygu'r maes 'iaith' ar gyfer pob cymhwyster yn QiW a diweddarau unrhyw gofnodion lle bo angen. Bydd y set data llawn hon yn ein galluogi i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• adrodd yn gywir ar asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol;</li> <li>• helpu i nodi bylchau yn yr hinsawdd cymwysterau;</li> <li>• llywio'r broses o bennu meini prawf Cymeradwyo / Dynodi.</li> </ul>
c)	Nodi'r dulliau sydd ar gael i gyrff dyfarnu er mwyn darparu cymwysterau a threfniadau asesu yn Gymraeg a pha dulliau y maent yn eu defnyddio a cheisio deall yr heriau a wynebant ymhellach a sut y gellir mynd i'r afael â nhw.	Ym mis Mawrth 2016 gwahoddwyd pob corff dyfarnu i gyfrannu at y broses o ddatblygu polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog. Fel rhan o'r ymarfer hwn nodwyd nifer o heriau y mae cyrrff dyfarnu yn eu hwynebu. Roedd y rhain yn cynnwys:

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• argaeledd gwirwyr allanol / aswirwyr ansawdd allanol cyfrwng Cymraeg;</li> <li>• terfynau amser ar gyfer cynhyrchu deunyddiau;</li> <li>• cysondeb a chywirdeb cyfieithiadau;</li> <li>• cost cyfieithu.</li> </ul> <p>Trafodwyd atebion posibl i'r materion hyn yn y Fforwm i Gyrrff Dyfarnu ar 13 Rhagfyr. Bydd hyn yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer y 6 mis nesaf (uchod).</p>
d)	Gweithredu er mwyn sicrhau, os datblygir unrhyw gymwysterau mewn ymateb i'r adolygiad sectorol o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, eu bod fel arfer yn cynnig asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cymorth ariannol cychwynnol, o bosibl trwy elfen o gyllid grant.	Mae'r fanyleb contract drafft ar gyfer caffael y gyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn amlinellu'r gofyniad bod yn rhaid i'r cymwysterau newydd fod ar gael yn ddwyieithog. Cytunwyd y bydd cymorth ariannol, drwy grant, ar gael i gefnogi'r broses o gyfieithu manylebau cymwysterau a deunyddiau asesu enghreifftiol; amlinellwyd hyn hefyd yn y fanyleb contract drafft.
e)	Parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ffordd gydgyssylltiedig o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymwysterau.	Mae Cymwysterau Cymru wedi cael trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid perthnasol megis Colegau Cymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Rydym hefyd yn datblygu Memorandwm

		Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Comisiynydd a fydd yn nodi ein hymrwymiad i gydweithio lle bo hynny'n bosibl i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Y gobaith yw y caiff hwn ei gymeradwyo yn ystod gwanwyn 2017.
<b>Tachwedd 2016</b>		
a)	Adolygu ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu a'r canlyniadau o'r gweithgareddau, a chytuno ar unrhyw ddiweddariadau pellach.	Cyflawnwyd
b)	Gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch i ddeall yn well yr hyn sydd ar gael yn y Gymraeg yn eu sefydliadau ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ein helpu i flaenoriaethu llwybrau dilyniant allweddol drwy gyfrwng y Gymraeg.	Parhaus